Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Defnyddio grym

23 Mehefin 2025

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
**Ysgrifennwyd gan: Tom Walters**

# Cynnwys


Trosolwg, Cefndir a Methodoleg ........ 2

Crynodeb o'r canfyddiadau ........ 5

Sylwadau'r panel ........ 7

Atodiad- Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion y Ddalfa ........ 29

- Demograffeg ........ 29
- Dalfeydd ........ 31
- Amser cyrraedd y ddalfa ........ 31
- Darpariaethau yn y ddalfa ........ 33
- Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa ........ 34
- Hylendid ........ 35
- Hawliau a hawlogaethau ........ 36
- Lefel arsylwi ........ 39
- Gwasanaethau cymorth ........ 41
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ........ 42
- Dillad risg arbennig/dillad gwrth-rwygo ........ 43
- Defnyddio grym ........ 45
- Noeth-chwiliad ........ 47
- Plant yn y ddalfa ........ 49
- Coch Melyn Gwyrdd ........ 49

# Trosolwg, Cefndir a Methodoleg

Mae tarddiad, pwrpas a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa i'w gweld ar ein gwefan ac yn benodol o dan y cylch gorchwyl drwy'r ddolen hon: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Bydd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn edrych ar feysydd o'r flwyddyn flaenorol ar sail gylchol gyda'r bwriad o gymharu ac asesu a yw'r dysgu a nodwyd wedi'i weithredu o fewn gwasanaethau'r ddalfa.

Ym mis Mehefin 2024, canolbwyntiodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ar Ddefnyddio grym. Wrth baratoi ar gyfer y gweithgarwch craffu hwn, cafodd y panel ei atgoffa o *Grynodeb o ganfyddiadau* adroddiad y llynedd:

- Ym mhob achos a graffodd y panel arno, gosodwyd lefel arsylwi a chadwyd at bob lefel arsylwi.
- Nododd nifer o aelodau'r panel bod y lefelau arsylwi wedi'u hisraddio yn briodol yn ystod cyfnod yr unigolion yn y ddalfa o fod yn risg uwch i lefel 1 a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd.
- Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 23 munud, a'r amser aros hiraf oedd 1 awr.
- Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 19 awr ac 8 munud.
- Rhoddwyd eu hawliau i'r holl unigolion naill ai yn ystod y cam cofnodi neu rywbryd yn ystod eu hamser yn y ddalfa.
- O'r 16 achos a adolygwyd, roedd angen i wyth ohonynt weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac nid oedd unrhyw oedi cyn i'r unigolion a gadwyd yn y ddalfa gael asesiad iechyd
- Darparwyd sail rhesymegol ar gyfer pob darn o ddillad risg arbennig a roddwyd i'r unigolion a gadwyd yn y ddalfa.
- Yn achos yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa a gafodd noeth-chwiliad, nododd y panel y darparwyd sail rhesymegol da drosto.
- Yn achos yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa a oedd angen oedolyn priodol, darparwyd sail rhesymegol drosto.

Mewn perthynas â meysydd i’w gwella yr un adroddiad, nododd y panel y canlynol:

- O’r pum cofnod ar gyfer unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa a adolygwyd parthed defnyddio grym, neilltuwyd swyddog o’r un rhyw i dair ohonynt, ac roedd un cofnod yn nodi na allai’r aelod panel ddod o hyd i wybodaeth a oedd yn nodi p’un a oedd yr unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa wedi cael cynnig siarad â rhywun o’r un rhyw.
- Bylchau yn yr wybodaeth am hawliau unigolion a gadwyd yn y ddalfa (cloch cell, eitemau crefyddol, toiled wedi’i guddio gan lun picsel).
- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i’r heddlu gysylltu â chyfreithiwr oedd 55 munud a’r cyfnod hiraf oedd pedair awr a saith munud.

Mae defnyddio grym yn parhau i fod yn agwedd allweddol ar blismona, ac mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi wedi rhoi adborth i heddluoedd yn pwysleisio’r angen i lywodraethu ac arolygu’n effeithiol; gan sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei reoli’n dda a bod sail rhesymegol wedi’i gyfiawnhau dros unrhyw ddefnydd o rym. Pwnc y gwaith craffu a bwysleisiwyd i’r panel oedd sicrhau bod unrhyw fath o rym a ddefnyddiwyd ar unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gyfreithlon ac yn gymesur.

Rhoddwyd cwestiynau ychwanegol i’r panel ar gyfer y panel craffu hwn, a oedd yn cynnwys adran benodol ar ddefnyddio grym, a oedd yn ymdrin â’r canlynol:

- A ddefnyddiwyd grym yn y ddalfa?
- Pa fath o rym a ddefnyddiwyd?
- A ystyriwyd y grym a ddefnyddiwyd yn angenrheidiol ac yn gymesur?
- A oedd y sail rhesymegol a ddarparwyd dros ddefnyddio grym yn ddigonol?
- A oedd unrhyw anafiadau i’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa?
- A oedd unrhyw anafiadau i staff y ddalfa o ganlyniad i’r digwyddiad?

Dyma enghraifft o’r set o gwestiynau y gofynnwyd i’r panel eu hystyried:

# Crynodeb o’r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau’r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

**Defnyddio grym:**
Drwyddo draw, penderfynodd y panel roi dyfarniad gwyrdd i 54% o’r cofnodion a adolygwyd, sy’n nodi nad oes angen i’r heddlu gymryd unrhyw gamau pellach oherwydd ansawdd y cofnod. Nodwyd 42% yn gofnodion melyn, ond nid am fod y ddefnydd o rym yn anghymesur, ond yn hytrach, am fod manylion yr heddlu yn y cofnod yn absennol neu’n aneglur. Dim ond un cofnod a gafodd ei ddyfarnu’n goch, ac roedd wyth cofnod lle’r oedd y panel yn teimlo y gallai’r grym a ddefnyddiwyd fod wedi bod yn anghymesur, a restrir yn adran *Sylwadau’r panel* isod, lle mae’r heddlu wedi darparu manylion digonol i leddfu unrhyw bryderon.

**Benywod:**
O’r wyth unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa, nodwyd y cafodd swyddog benywaidd ei haseinio i bob un ohonynt a gofynnwyd i bob unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa os yr hoffent siarad â rhywun o’r un rhyw. Nododd y panel hefyd y cynigwyd cyfleusterau hylendid i bob benyw yn ystod ei chyfnod yn y ddalfa.

**Lefel arsylwi:**
Cadwyd at yr holl lefelau arsylwi a osodwyd gan y ddalfa. Barnwyd bod staff y ddalfa yn rheoli risg ac yn uwchgyfeirio/isgyfeirio’n briodol gan addasu i ymddygiad heriol yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa.

**Penderfyniad i gael gwared ar y dillad gwrth-niwed/dillad risg arbennig:**
Ym mis Mai 2025, penderfynodd Heddlu Dyfed-Powys roi’r gorau i ddefnyddio siwtiau gwrth-niwed. Mae achosion yng nghanfyddiadau Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa lle defnyddiwyd siwtiau gwrth-niwed cyn Mai 2025, ac fe’u hystyriwyd yn amhriodol gan yr heddlu, sy’n dilysu’r penderfyniad i roi’r gorau i’w defnyddio.

**Gwasanaethau cymorth:**

Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 20 o’r 26 unigolyn a gedwir yn y ddalfa neu cawsant eu hatgyfeirio atynt; a gwrthododd y chwech arall yr opsiwn. Roedd y prif wasanaethau a gynigiwyd i’r unigolion a gadwyd yn y ddalfa ar gyfer iechyd meddwl.

**Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol:**
Gwelodd 20 o’r 26 unigolyn weithiwr gofal iechyd proffesiynol, gyda chwech yn profi oedi. Ar y cyfan, roedd sylwadau’r panel yn gadarnhaol ac roeddynt yn canmol staff y ddalfa am eu hymagwedd ofalgar a phroffesiynol tuag at yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa ac am ddefnyddio eu mentergarwch i archwilio hanes iechyd meddwl i asesu gallu wrth archwilio cyfleoedd i ddefnyddio gweithiwyr gofal iechyd proffesiynol fel oedolion priodol.

**Rhestr Wirio Plant yn y Ddalfa:**
Roedd un cofnod a oedd yn ymwneud â phlentyn yn y ddalfa; serch hynny, ni allai’r panel weld y Rhestr Wirio Plant. Bydd hyn yn cael ei unioni ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae’r heddlu wedi cadarnhau bod Rhestr Wirio Plant wedi’i chynnwys yn y cofnod hwn a bod tystiolaeth bod staff y ddalfa yn ymwybodol o’r model AWARE (ystyr AWARE yw ymddangosiad (appearance), geiriau (words), gweithgaredd (activity), cydberthnasoedd (relationships) ac amgylchedd (environment), ac mae’r holl agweddau hyn yn helpu i lunio darlun mwy cyflawn o amgylchiadau’r plentyn a ffactorau achosol posibl yn eu troseddu). Mae’r heddlu’n bwriadu darparu gwasanaeth wedi’i gomisiynu i gefnogi’r gwaith o sicrhau eiliadau cyraeddadwy, rhoi sylw i lais y plentyn, meithrin cydberthynas â’r plentyn a chynorthwyo i lunio cynlluniau gofal ac atgyfeiriadau allanol o’r ddalfa. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran *Sylwadau’r panel.*

**Yr amser a aeth heibio o gyrraedd i gael awdurdod i’w gadw am gyfnod yn y ddalfa:**
Nododd y panel mai’r amser ar gyfartaledd a aeth heibio o’r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i’w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 31 munud, a’r amser aros hiraf oedd 1 awr a 42 munud; serch hynny, oherwydd natur y trais a ddangoswyd gan yr unigolion a gedwir yn y ddalfa, ystyriwyd y gellid cyfiawnhau hyn, fel y cyfeiriwyd ato yn adran *Sylwadau’r panel.* Mae’r heddlu hefyd yn llunio adroddiad perfformiad chwe mis sy’n cymharu amseroedd aros rhwng pob dalfa i nodi dalfeydd sydd ag amseroedd aros cyson uwch.

## Meysydd i’w gwella:

**Cofnodion Defnyddio grym:**

Mae angen sicrhau bod cynnwys y ffurflen defnydd grym yn cael ei ddyblygu'n effeithlon yn nghofnod y ddalfa. Caiff ffurflenni defnyddio grym eu cwblhau gan swyddogion sydd ynghlwm â'r digwyddiad, ond nid oes digon o fanylion wedi'u nodi yng nghofnod y ddalfa. Mae'r panel wedi rhannu adborth â staff y ddalfa ynghylch "*cofnod cadw yn y ddalfa pwrpasol…bod grym wedi cael ei ddefnyddio yn y ddalfa, pa fath o rym a ddefnyddiwyd, y rheswm/rhesymau pam y defnyddiwyd grym, y swyddog/swyddogion a oedd yn rhan o'r digwyddiad, a'r canlyniad".*

**Yr angen i arestio:**
Nododd dau o'r tri cofnod dalfa un rheswm dros arestio, a chadarnhaodd yr heddlu y gellid bod wedi dewis opsiynau eraill hefyd.

**Bylchau mewn cofnodi manylion yng nghofnodion y ddalfa:**
Enghreifftiau o beidio cofnodi pan fydd unigolion yn gwrthod cyfleusterau hylendid, dim yn holi am grefydd yn rheolaidd, dim yn cynnig lluniaeth bwyd ar adegau, ac enghreifftiau pellach o beidio â chofnodi yn rheolaidd yng nghofnodion y ddalfa pan fydd cyfreithiwr yn cyrraedd neu pan fydd trosglwyddiadau yn cael eu gwneud.

# Sylwadau'r panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Defnyddio grym** | 1) Ymddengys y defnyddiwyd grym cyn i'r unigolyn gael ei gymryd i'r ddalfa gan ei fod wedi cael ei roi mewn gefynnau. Allwch chi wirio pe defnyddiwyd grym yn erbyn yr unigolyn pan ydoedd yn y ddalfa?<br>2) Ar bedwar achlysur, nododd aelodau'r panel nad oedd digon o fanylion yn y cofnod i ddangos tystiolaeth o ba fath o rym a ddefnyddiwyd a'r sail | *1) Rwyf wedi adolygu cofnod y ddalfa ac wedi nodi cynlluniau gofal ar ddechrau'r cofnod sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer defnyddio grym yn y ddalfa a'r rhesymau dros ei ddefnyddio. Mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi dod i'r ddalfa yn ymddwyn yn dreisgar ac yn ymosodol; mae wedi cael ei gario i mewn i'r uned gan swyddogion arestio ac wedi cael ei arwain yn syth i gell. Defnyddiwyd gweithdrefn gell. Mae wedi parhau i gael ei arsylwi ar lefel 2 am ddwy awr cyn i'r arsylwi gael ei ostwng i lefel 1 er mwyn caniatáu cyfnod o orffwys.* |

| | | |
|---|---|---|
| | rhesymegol dros ddefnyddio grym. A ellir gwirio hyn?<br>3) *Nododd aelod o'r panel y canlynol yn benodol: "Bachgen 14 oed oedd hwn a geisiodd gerdded allan o'r gell ar ôl ei nain. Dydw i ddim yn siŵr os oedd angen i sawl swyddog ei dynnu i'r llawr a'i roi mewn gefynnau i'w atal rhag gwneud hynny, ac mae'n amlwg o'r cofnod bod ei nain yn ei ystyried yn ddefnydd gormodol o rym."* A ydych chi'n ystyried bod y grym a ddefnyddiwyd yn erbyn yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gymesur â'r amgylchiadau?<br>4) Tynnwyd siorts trwy rym oherwydd byddai modd defnyddio'r bwclau o bosibl i hunan-niweidio. Nodwyd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i roi ar lefel arsylwi 3; fodd bynnag, cwestiynodd aelod y panel a oedd yn angenrheidiol i dorri siorts yr unigolyn o ran urddas. A allwch ddarparu ychydig o gyd-destun i'r penderfyniad hwn? | 2) *Wedi adolygu pob un o'r pedwar cofnod dalfa, rwyf wedi dod o hyd i gofnodion yn y cynllun gofal sy'n sôn am y grym a ddefnyddiwyd a'r sail rhesymegol drosto. Gweler y manylion isod:*<br>• *Yn y cofnod dalfa cyntaf, daethpwyd o hyd i gofnodion yn y cynllun gofal sy'n nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddwyn yn ymosodol pan gyrhaeddodd a bod rhaid ei gludo'n syth i'r gell. Mae cofnod pellach o dan awdurdodi cyfnod yn y ddalfa yn nodi y "cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa noeth-chwiliad, defnyddiwyd mwgwd atal poeri, technegau tynnu i lawr, gweithdrefn gell a dal i lawr oherwydd ei ymddygiad".*<br>• *Mae'r ail gofnod dalfa yn cynnwys gwybodaeth o'r cynllun gofal cyntaf sy'n nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i ddwyn i'r ddalfa yn feddw ac yn dreisgar. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eisoes wedi ymosod ar un swyddog trwy gicio ac yna roedd yn cicio drws y gell aros ac yn gwneud bygythiadau llafar. Oherwydd hyn, gofynnodd swyddog y ddalfa i dri swyddog benywaidd fynd â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn syth i'r gell. Parhaodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i wrthwynebu ac felly cwblhawyd y weithdrefn gell i dynnu dillad a gemwaith â chordiau. Gadawyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ei fest a'i drowsus ei hun. Cafodd siwmper dalfa hefyd ei darparu gan fod siwmper â chwfwl yr unigolyn wedi cael ei chymryd oddi arno.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | • *Mae'r trydydd cofnod dalfa yn cynnwys gwybodaeth o'r cynllun gofal cyntaf sy'n nodi y cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei gofrestru yn y ddalfa a'i fod yn ymddwyn yn fygythiol. Ceisiodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa glymu dillad o amgylch ei wddf, penio'r toiled a gorlifo'r gell. Defnyddiwyd gweithdrefn gell a symudwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa o'r gell wreiddiol i gell sych i atal llifogydd pellach.*<br>• *Mae'r pedwerydd cofnod dalfa hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch defnyddio grym o'r cynllun gofal cyntaf. Mae'n nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi brathu swyddog ac wedi bod yn cicio swyddogion. Parhaodd hyn yn y ddalfa pan geisiodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa frathu swyddog tra'r oedd yn y gell. Wrth geisio cychwyn y chwiliad cychwynnol yn y ddalfa, nid yw'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi bod yn cydymffurfio, bu'n cicio swyddogion, a arweiniodd ato'n cael ei gludo i'r gell. Rhoddwyd trowsus dalfa i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa gan fod ei throwsus hi yn wlyb.*<br>3) *Rwyf wedi adolygu'r cofnod dalfa ac rwy'n meddwl bod yr aelod panel yn cyfeirio at un cofnod cadw yn y ddalfa yn benodol. Mae'n nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi dychwelyd i'r ddalfa ac eisiau eistedd yn y gell gyda'i fam-gu, felly mae hyn wedi cael ei ganiatáu. Llai na munud yn ddiweddarach, mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi taro drws y gell ac wedi dechrau gweiddi ar ei nain, felly mae swyddog y ddalfa wedi mynd i'r gell i wirio ei bod yn iawn. Yna* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi ymosod yn llafar ar swyddog y ddalfa a'i nain, felly mae ei nain wedi dechrau gadael y gell. Yna mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi ceisio gadael y gell ac wedi cael ei atal gan swyddog y ddalfa a swyddog tywys y ddalfa.  Actifadwyd y larwm affráe, ac aeth swyddogion pellach atynt i'w cynorthwyo i atal yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa rhag gadael y gell.  Mae'r nain yn ymddwyn yn warchodol tuag at yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ac felly mae wedi cael ei throi allan o'r ddalfa. Er y gallai hyn ymddangos yn eithafol o adolygu'r sefyllfa yn sylfaenol, o ystyried oed yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, rhaid ystyried hefyd un o'r rhesymau dros arestio, sef bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eisoes wedi ymosod ar y swyddog arestio a oedd yn gorfod defnyddio fanililamid asid pelargonig (chwistrell analluogi). Mae hefyd yn tynnu sylw at droseddau blaenorol yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa o ymosod ar weithwyr brys.  Mae'r cynllun gofal cyntaf hefyd yn nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddwyn yn ymosodol iawn ar ôl cyrraedd y ddalfa a bod rhaid iddo aros mewn gefynnau tan iddo fynd i'r gell.  Dywedodd swyddog y ddalfa wrth yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa mai'r cynllun oedd ei gyfweld yn fuan iawn, ond bod angen iddo dawelu ac roedd yn ymddangos ei fod wedi gwneud hynny.  Fodd bynnag, wedi i'w nain gyrraedd, gwaethygodd ymddygiad yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gyflym, ac felly credaf mai'r penderfyniad cywir oedd ei gwneud i adael y ddalfa a dod â thad yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'r ddalfa fel oedolyn priodol. Heb weld y fideo teledu cylch cyfyng ar gyfer y digwyddiad* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *hwn, nad yw ar gael mwyach, byddwn yn awgrymu, o ystyried y trais a oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eisoes wedi ei ddangos trwy ymosod ar swyddogion a dyrnu wal y gell, ei bod yn angenrheidiol i'r heddlu atal unrhyw ymosodiad neu anaf pellach. Er bod rhaid ystyried oedran yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, mae nifer y swyddogion a oedd eu hangen i'w atal yn ddiogel eto yn dangos lefel yr ymddygiad ymosodol, ac mae'n debyg y byddai peidio ag ymyrryd wedi arwain at ymosodiadau pellach yn erbyn swyddogion neu bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn anafu ei hun trwy ddyrnu'r wal eto.*<br>*4) O adolygu cofnod y ddalfa, mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cyrraedd yn feddw, wedi troi'n dreisgar ac yn anghydweithredol yn ystod yr asesiad risg, ac wedi gorfod cael ei gludo i'r gell. Roedd marcwyr rhybuddio ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ar gyfer hunan-niweidio a chuddio eitemau. Mae'r cynllun gofal yn nodi bod "SIORTS YR UNIGOLYN A GEDWIR YN Y DDALFA WEDI'U TYNNU GAN FOD Y BWCLAU YN PERI RISG I'R UNIGOLYN A GEDWIR YN Y DDALFA AC ERAILL". Rwy'n cytuno â'r penderfyniad hwn o ystyried cyflwr meddw'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa a'i chyfnodau blaenorol o hunan-niweidio gan y gallai'r bwclau fod wedi cael eu defnyddio i achosi anaf iddi hi ei hun neu staff y ddalfa. Byddai arsylwadau L3 wedi cael eu dewis, yn hytrach na L4, oherwydd ymddygiad ymosodol/treisgar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Byddai arsylwadau L4 wedi cynyddu'r risg o ymosodiad ar staff y ddalfa neu swyddogion cynorthwyol.*<br><br>*Er bod cofnodion y ddalfa a amlygwyd gan aelodau'r panel yn yr arsylwadau hyn yn cynnwys gwybodaeth* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *sy'n ymwneud â defnyddio grym, gellir dysgu a gwella ychydig ohonynt o hyd. Mae pob cofnod dalfa yn dogfennu'r grym a ddefnyddiwyd yn y cynllun gofal, sy'n berthnasol, chaiff ffurflenni defnyddio grym eu cwblhau gan bob swyddog sy'n gysylltiedig â'u terfynellau data symudol. Mae'r ffurflenni defnyddio grym hyn a gwblheir gan y swyddogion ynghlwm wrth gofnod y digwyddiad ac nid cofnod y ddalfa ar Niche. Mae trafodaethau mewnol o fewn gwasanaethau'r ddalfa wedi arwain at yrru neges at holl staff y ddalfa yn nodi bod angen iddynt ddyblygu cynnwys y ffurflenni defnyddio grym yng nghofnodion y ddalfa yn fwy effeithlon. Er nad oes angen i'r wybodaeth hon fod mor fanwl â'r ffurflenni defnyddio grym, gellir cyflwyno cofnod cadw yn y ddalfa pwrpasol yn dogfennu bod grym wedi cael ei ddefnyddio yn y ddalfa, pa fath o rym a ddefnyddiwyd, y rheswm/rhesymau dros ddefnyddio grym, y swyddog/swyddogion o dan sylw, a'r canlyniad.* |
| **Pryder penodol ynghylch cofnodion dalfa sy'n ymwneud â defnyddio grym** | O fewn y cofnod dalfa hwn, cadwyd unigolyn yn y ddalfa am ddau ddiwrnod 10 awr a 55 munud. Nodwyd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddwyn yn dreisgar wrth fynd i mewn i'r ddalfa ac y cafodd ei gario i'r gell. Mae'r asesiad risg yn nodi nad staff y ddalfa oedd yn gyfrifol am ddefnyddio grym. Nid yw'n glir chwaith a oedd gweithiwr gofal iechyd wedi asesu'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa.<br><br>Allwch chi egluro'r canlynol:<br>1) Beth oedd y cyfiawnhad dros gadw'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gyfnod hwy na 24 awr yn unol â | *1) Cyhuddwyd a remandiwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa pan oedd pedair awr a hanner ar ôl ar eu cloc 24 awr cychwynnol, yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, a hynny am stelcio domestig a difrod troseddol. Gwnaed y penderfyniad cyhuddo hwn yn dilyn cyngor uniongyrchol gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa hefyd yn eisiau ar warant, ac felly byddai wedi aros yn y ddalfa er mwyn ymddangos yn y llys nesaf a oedd ar gael beth bynnag, hyd yn oed pe bai penderfyniad cyhuddo Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi golygu dim camau pellach neu ei roi ar fechnïaeth. Cafodd ei gyhuddo a'i remandio am 17:43 nos Sadwrn ac felly ni fyddai'r llys nesaf wedi bod ar gael tan fore Llun. A dyna'r rheswm* |

| | | |
|---|---|---|
| | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol?<br>2) A welodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol?<br>3) A gafodd y ffurflenni defnyddio grym eu cwblhau'n ddigonol gan yr holl staff a oedd yn ymwneud ag atal yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa? | *dros ei gadw yn y ddalfa am ddau ddiwrnod 10 awr a 55 munud.*<br>*2) Do, cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei weld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ar ddau achlysur gwahanol, i asesu a oedd yn addas i'w gadw yn y ddalfa a'i gyfweld, ac er mwyn rhoi meddyginiaeth iddo.*<br>*3) Nid staff y ddalfa a gynhaliodd y weithdrefn gell ond yn hytrach y swyddog arestio/ tywys. Nid yw'r ffurflenni defnyddio grym wedi'u hatodi i'r cofnod dalfa, nid ydynt yn ymddangos yn y cofnod dalfa, ac felly ni fyddent wedi bod ar gael i'w hadolygu gan aelod y panel. Fodd bynnag, gallaf sicrhau bod ffurflenni defnyddio grym wedi cael eu cwblhau gan bob swyddog o dan sylw a'u bod wedi'u hatodi i'r digwyddiad.*<br><br>*Fel y nodwyd uchod mewn arsylwadau blaenorol, gellir gwneud gwelliannau i'r ffordd y caiff defnyddio grym ei ddogfennu yng nghofnodion y ddalfa, ac mae canllawiau wedi'u hanfon at holl staff y ddalfa parthed cofnodi defnyddio grym yn y ddalfa yn y cofnodion cadw yn y ddalfa pwrpasol.* |
| **Noeth-chwiliad** | 1) Nododd un aelod o'r panel nad oedd sail rhesymegol clir dros gynnal y noeth-chwiliad.<br>2) Nododd aelod arall o'r panel nad oedd sail rhesymegol clir dros noeth-chwiliad ar gyfer dau gofnod dalfa arall.<br><br>A ellir adolygu'r ddau bwynt ac egluro a oedd cyfiawnhad dros gynnal noeth-chwiliad? | *1) C24084703 – Ni chynhaliwyd noeth-chwiliad. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn feddw ac yn dreisgar, cynhaliwyd gweithdrefn gell, a thynnwyd dillad â chordiau oddi arno, sef siwmper â chwfl yn unig. Parhaodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i wisgo pob ddilledyn arall, gan gynnwys top fest a'i drowsus ei hun. Cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa siwmper y ddalfa hefyd er mwyn ei gadw'n gynnes. Mae hyn oll wedi'i gofnodi yn y cynllun gofal cyntaf.*<br>*2) C25008679 – Ni chynhaliwyd noeth-chwiliad. Y cyfan mae'r cynllun gofal yn ei nodi yw bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi dechrau* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gwrthsefyll pan gafodd ei chwilio a'i fod yn mynnu rhoi ei ddwylo yn ei bocedi. Bu'n rhaid atal yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ei hebrwng i'r gell, a chynhaliwyd y weithdrefn gell.*<br>*C24089036 – Ni chynhaliwyd noeth-chwiliad. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddwyn yn fygythiol tuag at staff pan gyrhaeddodd y ddalfa, cafodd ei hebrwng i'r gell, a chynhaliwyd gweithdrefn gell.*<br><br>*Ar ôl adolygu'r ddau bwynt a'r tri chofnod dalfa, mae'n ymddangos bod aelodau'r panel yn camgymryd gweithdrefnau cell am noeth-chwiliadau. Er y gall noeth-chwiliad fod yn rhan o weithdrefn gell weithiau os oes angen, maent yn gamau a gymerir ar wahân. Ni chynhaliwyd unrhyw noeth-chwiliad yn unrhyw un o'r tri chofnod dalfa a grybwyllwyd.*<br><br>*Mae'r arsylwadau hyn yn parhau i fod o fudd gan eu bod wedi tynnu sylw at gyfle dysgu i aelodau'r panel ar y gwahaniaeth rhwng gweithdrefn gell a noeth-chwiliad. Gellir rhannu'r wybodaeth hon ag aelodau'r panel yn ystod yr hyfforddiant, neu yng nghyfarfod nesaf y panel, er mwyn gwella eu dealltwriaeth.* |
| **Yr amser a aeth heibio o gyrraedd i gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa** | 1) Yr amser aros hiraf oedd un awr a 42 munud, gyda'r aelod panel yn nodi mai'r rheswm dros yr oedi oedd bod y ddalfa'n brysur a bod unigolion eraill a gedwir yn y ddalfa yn cael eu cofrestru. A allwch chi nodi a oedd cyfiawnhad dros hyn?<br><br>2) O adolygu'r amseroedd y cyrhaeddodd yr unigolion a gedwir yn y ddalfa, mae cynnydd sylweddol | *1) Fel y nodwyd, mae'r cofnod dalfa yn nodi bod oedi gan fod y ddalfa'n brysur a bod unigolion eraill a gedwir yn y ddalfa yn cael eu cofrestru. Gallaf gadarnhau bod unigolyn arall a gedwir yn y ddalfa wedi cyrraedd y ddalfa 28 munud cyn yr unigolyn hwn ac yn parhau i gael ei gofrestru a fyddai wedi achosi oedi cychwynnol gan mai dim ond un swyddog dalfa sydd ar ddyletswydd yn y ddalfa hon ar un adeg. Yng nghynllun gofal cyntaf y cofnod dalfa, mae'n nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cyrraedd y ddalfa yn feddw, wedi cythruddo trwyddo ac yn gweiddi ar y staff. Ar* |

| | | |
|---|---|---|
| | yn nifer y cofnodion defnyddio grym yn ystod y cyfnod o chwech yr hwyr ymlaen. O ystyried bod y panel wedi nodi mai'r prif wasanaeth a gynigiwyd i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa oedd ar gyfer iechyd meddwl, a ydych chi'n credu bod cysylltiad o ran y ffaith nad yw'n bosibl cael gafael ar wasanaethau y tu hwnt i oriau swyddfa, neu a fyddech chi'n asesu mai ffactorau eraill megis cyffuriau neu alcohol yw'r prif resymau? | *ben hynny, mae'n nodi nad yw'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cydymffurfio yn ystod y chwiliad a bod rhaid tynnu'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'r llawr a bod gefynnau ac atalyddion coes wedi cael eu defnyddio. Oherwydd lefel yr ymddygiad ymosodol, bu'n rhaid mynd â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn syth i'r gell a chwblhau'r weithdrefn gell. Byddai hyn wedi achosi oedi pellach gan fod swyddog y ddalfa yn gorfod goruchwylio'r weithdrefn gell. Dim ond wedi iddo wneud hynny y gallai swyddog y ddalfa ddychwelyd i gwblhau'r tasgau gweinyddol ar gyfer awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa a'r cynllun gofal. O ystyried yr holl bethau uchod, gellir cyfiawnhau'r oedi o un awr a 42 munud.*<br>2) *Mae hwn yn gwestiwn heriol ac un na allaf roi ateb pendant iddo heb adolygu pob cofnod dalfa yn fanwl, a fyddai'n cymryd cryn dipyn o amser yn anffodus. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith ei bod yn anodd darparu gwasanaethau iechyd meddwl y tu allan i oriau swyddfa, mae gennym fynediad bob amser at weithwyr gofal iechyd i gynnal asesiad cychwynnol, a gellir gofyn am asesiad iechyd meddwl llawn os ystyrir bod ei angen (nid yw'r rhain yn digwydd yn rheolaidd). Byddwn i'n dadlau, o brofiad, bod y defnydd o alcohol a/neu gyffuriau yn tueddu i fod yn fwy o ffactor o ran trais carcharorion nag iechyd meddwl.*<br><br>*Er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau'r panel, rwy'n dechrau llunio adroddiad perfformiad chwe mis ar gyfer dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys. Un o'r meysydd a fydd yn cael eu hasesu yw amseroedd aros (yr amser rhwng cyrraedd y ddalfa a'r amser a gymerir i awdurdodi cyfnod yr unigolyn yn y ddalfa). Bydd y data hwn yn cael ei ddadansoddi fesul mis a fesul dalfa, a bydd hyn* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *yn caniatáu i ni gymharu amseroedd aros pob dalfa. Bydd hyn yn amlygu unrhyw broblemau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw, er enghraifft, os oes un ddalfa yn profi amseroedd aros hirach yn gyson o gymharu â dalfeydd eraill.* |
| **Yr angen i arestio** | Roedd tri chofnod yn nodi mai'r unig reswm dros arestio oedd i *gynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol*; nodwyd rhesymau ychwanegol yn y cofnodion eraill. Roedd y tri unigolyn hwnnw yn y ddalfa am 21 awr 55 munud, 15 awr ac 11 awr, yn y drefn honno.<br><br>O adolygu'r cofnodion, a ellid cyfiawnhau'r angen i arestio a chadw pob unigolyn yn y ddalfa? | *Cofnod dalfa 1 – Gwiriwyd y cofnod dalfa ac ni nodwyd unrhyw broblem gyda'r angen i arestio; serch hynny, gan fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i arestio am ymosod ar ei nai, gallent hefyd fod wedi ystyried "angenrheidrwydd pellach i amddiffyn unigolyn agored i niwed", ac "i atal anaf iddo'i hun neu i rywun arall".<br>Cofnod dalfa 2 – Arestiwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa am fethu â darparu sbesimen i'w ddadansoddi (yn gysylltiedig ag yfed a gyrru). Yr angen i gynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol yn gywir fel y gellir cael sampl tystiolaeth o anadl yn brydlon yn y ddalfa.<br>Cofnod dalfa 3 – Arestiwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dilyn honiad gan bartner fod yr unigolyn wedi ceisio ei drywanu â chyllell mewn dau ran o'r corff a'i fod wedi dioddef anafiadau arwynebol. Mae cofnodion y ddalfa yn nodi mai'r angen i arestio oedd sicrhau ymchwiliad prydlon ac effeithiol ac i atal yr unigolyn rhag achosi anaf corfforol.<br><br>Mae'r arsylwadau hyn wedi tynnu sylw at y ffaith mai dim ond un rheswm dros yr angen i arestio a ddewiswyd gan y swyddog dalfa mewn dau o'r cofnodion dalfa pan oedd eraill hefyd yn berthnasol ac y gellid bod wedi'u dewis. Er nad yw hyn yn digwydd yn rheolaidd ar draws yr heddlu, bydd adborth yn cael ei roi i'r swyddogion dalfa o dan sylw ar y ddau gofnod dalfa hynny. Bydd hyn yn rhoi eglurder a sicrwydd ynghylch y rhesymau dros yr angen i arestio yn ystod adolygiadau ac archwiliadau.* |

| | | |
|---|---|---|
| **Lluniaeth bwyd yn cael ei chynnig yn rheolaidd** | Nododd y panel ddau achos lle nad oedd bwyd a lluniaeth yn cael eu cynnig yn rheolaidd. A oedd rheswm pam y digwyddodd hyn yn y ddau gofnod? | *Cofnod dalfa 1 - Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn feddw ac yn ymddwyn yn ymosodol am 17:05 o'r gloch a pharhaodd o dan arsylwadau L3/L4, gan arddangos ymddygiad a oedd yn anrhagweladwy, hyd nes iddo gysgu a chael ei roi o dan wiriadau deffro L2 am 22:44 o'r gloch. Ni ddeffrodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa tan 08:46 o'r gloch, pan geisiodd lenwi'r gell â dŵr. Proseswyd, cyhuddwyd, a rhyddhawyd yr unigolyn o'r ddalfa am 10:11 o'r gloch. Mae adolygiad cyntaf yr arolygydd a gynhaliwyd am 23:43 o'r gloch yn dogfennu bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gwrthod bwyd a diod. Er bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn amlwg yn anodd ei drin a'i fod wedi cysgu am ddeg awr o'i gyfnod yn y ddalfa, nid yw'r swyddog dalfa na swyddog tywys y ddalfa wedi cofnodi bod bwyd/diod wedi'i gynnig, ei ddarparu, neu ei wrthod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa.*<br><br>*Cofnod dalfa 2 – Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa am 21:07 o'r gloch a chafodd gwpan o ddiod oren am 21:19 o'r gloch. Yna rhoddwyd siocled poeth i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa am 22:48 o'r gloch. Trodd ymddygiad yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dreisgar am 23:33 o'r gloch ac felly cafodd ei roi o dan arsylwadau L4, a oedd yn ei gwneud yn anodd darparu eitemau yn ystod y cyfnod hwnnw. Aeth yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i gysgu am 01:01 o't gloch ac aeth i'r cyfweliad am 01:54 o'r gloch. Yna rhyddhawyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dilyn cyfweliad. Mae cofnod y ddalfa yn dangos bod bwyd/diod wedi cael ei gynnig i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa o fewn y ddwy awr gyntaf o'i gadw yn y ddalfa a bod diod wedi cael ei gynnig ddwy waith. Ar ôl yr amser hwnnw, ac o fewn y bedair awr nesaf, trodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *yn dreisgar, roedd yn cysgu, cafodd ei gyfweld a'i ryddhau. Ni allaf nodi unrhyw bryderon ynghylch darpariaeth bwyd/diod yn y cofnod hwn.*<br><br>*Mae'r arsylwadau hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r cofnod dalfa cyntaf, yn tynnu sylw at y posibilrwydd bod yr achlysuron lle cynigir bwyd/diod i garcharorion yn cael eu tan-gofnodi a bod y cynigion hyn yn cael eu gwrthod gan yr unigolion a gedwir yn y ddalfa. Mae'n bwysig bod yr achosion hyn yn cael eu cofnodi i ddangos bod staff y ddalfa yn cynnig bwyd/diod i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa yn rheolaidd a bod eu llesiant parthed hyn yn cael ei ystyried. Os nad yw hyn yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y ddalfa, yna bydd rhagdybiaeth nad yw staff y ddalfa yn darparu bwyd/diod i unigolion. Bydd hyn yn cael ei fonitro yn ystod yr archwiliadau misol a bydd adborth yn cael ei ddarparu os yw hyn yn ymddangos yn broblem ehangach.* |
| **Hylendid** | Nododd y panel fod dau achos lle na chynigiwyd cawodydd neu gyfleusterau golchi dwylo i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa. A allwch chi wirio a yw hyn yn wir, ac os felly, pam nad yw'r naill gofnod na'r llall yn dangos y cynigwyd cyfleusterau hylendid i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa? | *Cofnod dalfa 1 – Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y ddalfa yn oriau mân y bore o dan ddylanwad alcohol/cyffuriau ac felly roedd angen cyfnod gorffwys arno er mwyn sobri. Cwblhawyd ei hawliau a'i hawlogaethau am 12:44 o'r gloch pan oedd yn effro, a gwnaed yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymwybodol o'r ffaith bod nifer o bethau ar gael iddo, gan gynnwys cyfleusterau ymolchi/cawod. Proseswyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, cafodd ei gyfweld a'i ryddhau dair awr yn ddiweddarach.*<br><br>*Cofnod dalfa 2 – Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y ddalfa yn feddw a chysgodd dros nos. Deffrodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa am 11:18 o'r gloch y bore canlynol a chofnodwyd yn y cofnod cadw yn y ddalfa am 11:24 o'r gloch fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael brws dannedd i lanhau dannedd cyn y* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *cyfweliad. Cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei gyfweld, ei brosesu, a'i ryddhau lai na dwy awr yn ddiweddarach.*<br><br>*Er nad yw'r naill gofnod dalfa na'r llall yn codi pryderon ynghylch darpariaethau hylendid ar gyfer yr unigolyn o dan sylw, fel yn achos yr arsylwadau am fwyd/diod uchod, credaf ei bod yn bwysig cofnodi yng nghofnod y ddalfa pan gynigir cyfleusterau hylendid i unigolion a gedwir yn y ddalfa ond eu bod yn eu gwrthod. Ar hyn o bryd, dim ond pan fydd unigolion a gedwir yn y ddalfa yn defnyddio cyfleusterau hylendid y bydd cofnod trosglwyddo yn cael ei gofnodi yn dangos bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei symud o'r gell i'r ystafell gawod. Fodd bynnag, gallaf sicrhau aelodau'r panel bod pob unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael gwybod bod cyfleusterau a chynhyrchion hylendid ar gael iddynt yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa. Darperir rhestr o'r holl ddarpariaethau sydd ar gael i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa pan fyddant yn llofnodi eu hawliau a'u hawlogaethau.* |
| **Hawliau** | Ni allai aelod o'r panel gadarnhau a gyflwynwyd hawliau i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa, naill ai wrth ei gofrestru neu'n ddiweddarach. A ellir gwirio a chadarnhau hyn? | *Gwiriwyd cofnod y ddalfa a gallaf gadarnhau bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cyrraedd y ddalfa am 18:17 o'r gloch, yr awdurdodwyd ei gyfnod yn y ddalfa am 18:56 o'r gloch, a bod ei hawliau a'i hawlogaethau wedi'u cwblhau am 19:03 o'r gloch. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dymuno i'w fam gael gwybod ei fod wedi cael ei arestio, gwrthododd gyngor cyfreithiol, a gwrthododd gopi o'r codau ymarfer.* |
| **Cynrychiolaeth gyfreithiol** | 1) Yr amser cyfartalog i'r ddalfa gysylltu â chynrychiolaeth gyfreithiol oedd chwe awr a 47 munud. O ystyried mai ffocws y Panel Craffu Annibynnol hwn ar y Ddalfa yw defnyddio grym; ac o'r | *1) Heb edrych drwy bob cofnod dalfa, mae'n anodd asesu'r amser cyfartalog hwn i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr, gan y bydd pob cofnod dalfa yn unigryw o ran ei amgylchiadau. Byddai hyn yn dibynnu ar nifer o newidynnau gan gynnwys yr amser y cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa, p'un a* |

| | | |
|---|---|---|
| | herwydd, mae oedi'n debygol o ddigwydd i brosesau arferol wrth sicrhau lles yr unigolion a gedwir yn y ddalfa, a fyddech chi'n asesu bod yr amser cyfartalog hwn yn gymesur?<br><br>2) Y cyfnod hiraf o amser i'r ddalfa gysylltu â chyfreithiwr oedd 13 awr a 42 munud. O fewn yr un cofnod, ni allai aelod y panel ddod o hyd i fanylion yn nodi bod y cyfreithiwr yn bresennol nac yn cyrraedd. A allwch chi nodi pam y bu oedi cyn i'r ddalfa gysylltu â chyfreithiwr ar ran yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn yr achos hwn, ac a allwch chi wirio a oedd cofnod yn nodi presenoldeb cyfreithiwr ar gyfer yr unigolyn?<br><br>3) Nododd y panel ar dri achlysur nad oedd unrhyw gofnod yn nodi pryd gyrhaeddodd y cyfreithiwr, neu ei bod yn anodd dod o hyd i fanylion am y cysylltiad hwn. A allwch chi roi sicrwydd bod cyfreithwyr wedi cyrraedd ar y pum achlysur hyn? | *oedd yn feddw ai peidio, ymddygiad yr unigolyn, cyflwr ar gyfer cyfweliad, ymholiadau sydd eto i'w cwblhau, amser tebygol ar gyfer cynnal y cyfweliad, ac ati. Er enghraifft, os yw unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn feddw yna ni all gwblhau na llofnodi ei hawliau a'i hawlogaethau hyd nes y bydd yn sobr. Bydd hyn wedyn yn achosi oedi cyn cysylltu â chyfreithiwr.*<br><br>*2) Adolygwyd cofnod y ddalfa. Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa am 19:16 o'r gloch ar 14/02/25 a dywedodd nad oedd angen cyfreithiwr arno tan 08:51 o'r gloch. Fodd bynnag, ni chwblhawyd ei hawliau a'i hawlogaethau chwaith tan 08:49 awr. Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y ddalfa yn feddw iawn ac yn ddadleugar. Oherwydd ei feddwdod, ni ellid cwblhau ei hawliau a'i hawlogaethau gyda'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa hyd nes ei fod yn sobr. Roedd angen cyfnod o orffwys dros nos ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa er mwyn caniatáu iddo sobri. Cwblhawyd ei hawliau a'i hawlogaethau pan oedd yn effro'r bore canlynol a chwblhawyd cais am gyfreithiwr ddau funud ar ôl cwblhau ei hawliau a'i hawlogaethau. Byddai hyn yn egluro'r oedi cyn cysylltu â'r cyfreithiwr. Fodd bynnag, ni allaf ddod o hyd i unrhyw gofnod yn y cofnod cadw yn y ddalfa am y cyfreithiwr yn cyrraedd neu'n nodi ei fod yn bresennol yn y cyfweliad â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Diofalwch ar ran swyddog y ddalfa yw hyn a bydd adborth yn cael ei ddarparu.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | 3) *Cofnod dalfa 1 – Gofynnodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gyfreithiwr ond cafodd ei arestio am drosedd yn erbyn y drefn gyhoeddus Adran 5. Ymddengys bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ar ôl adolygu cofnod y ddalfa a'r digwyddiad, wedi cael ei gyhuddo heb gael ei gyfweld. Felly, ni fyddai'r cyfreithiwr wedi mynychu'r ddalfa. Mae hyn yn bosibl pan fydd gan yr heddlu ddigon o dystiolaeth o ddatganiadau swyddogion a lluniau camera corff i ddangos bod ymddygiad a gweithredoedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gyfystyr â throsedd yn erbyn y drefn gyhoeddus Adran 5. Nid yw hyn yn rhywbeth y byddwn i'n disgwyl i aelod o'r panel fod yn ymwybodol ohono i fod yn deg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod yn nghofnod y ddalfa i dynnu sylw at hyn a dim cofnodion yn ymwneud â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn siarad â chyfreithiwr dros y ffôn ac ati.*<br>*Cofnod dalfa 2 – Gallaf gadarnhau bod dyddiadur y ddalfa yn nodi am 12:49 o'r gloch bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymgynghori â'r cyfreithiwr, ac am 13:39 o'r gloch, nodwyd bod yr ymgynghoriad wedi gorffen a'i fod yn mynd i gyfweliad. Cofnodwyd enw'r cyfreithiwr a'r cwmni yn y ddau gofnod.*<br>*Cofnod dalfa 3 - Gallaf gadarnhau bod cofnod a gofnodwyd am 15:02 o'r gloch ar 19/02/25 yn enwi'r cyfreithiwr a bod y cyfreithiwr hwnnw wedi derbyn datgeliad gan swyddog yr achos. Mae cofnodion pellach yn tynnu sylw at ymgynghoriad ac yn nodi bod cyfreithiwr yn mynd i gyfweliad gyda'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa a swyddog. Fodd bynnag, byddai'r cofnod hwn wedi bod ychydig yn ddryslyd i aelod y panel ei adolygu gan* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cyrraedd y ddalfa ym mis Chwefror yn wreiddiol pan gynhaliwyd y cyfweliad, ac yna wedi dychwelyd ar fechnïaeth ym mis Ebrill at ddibenion cyhuddo yn unig, ac ni fyddai wedi bod yn ofynnol i'r cyfreithiwr fod yn bresennol ar yr achlysur hwn.*<br><br>*Yr hyn y mae'r arsylwadau hyn yn ei amlygu yw, er bod amser y cais am gyfreithiwr wedi'i gofnodi yn adran hawliau a hawlogaethau cofnod y ddalfa, nid yw amser cyrraedd y cyfreithiwr yn cael ei gofnodi'n rheolaidd, ac nid yw trosglwyddiadau'n cael eu cofnodi ar bob achlysur sy'n dangos unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu symud o'r gell i ystafell y cyfreithiwr i ymgynghori â'u cyfreithiwr. Bydd y maes hwn yn cael ei fonitro yn ystod yr archwiliadau misol a bydd adborth yn cael ei ddarparu ledled yr heddlu os caiff ei nodi i fod yn fater ehangach, neu bydd adborth yn cael ei ddarparu i staff penodol y ddalfa os yw aelodau unigol o staff yn gyfrifol am hyn yn gyson.* |
| **Lefel arsylwi** | Ni allai aelod o'r panel ddod o hyd i fanylion yn nodi a oedd angen deffro'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gyson. A ellir cadarnhau hyn a nodi a aseswyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wrth ei ddeffro'n gyson? | *Gallaf gadarnhau bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael ei wirio drwy ei ddeffro'n gyson. Mae'r cynllun gofal cyntaf a gwblhawyd yn gosod y lefel arsylwi gwiriadau L2 ar gyfnodau o 30 munud. Parhaodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i fod ar wiriadau deffro o 20:09 o'r gloch tan 23:53 o'r gloch. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi bod yn deffro'n dda yn ystod y cyfnod hwnnw, a gwnaed penderfyniad i ostwng i wiriadau L1 bob 30 munud.*<br><br>*Rwy'n hapus i roi cyfarwyddyd i aelodau'r panel ynghylch beth mae pob un o'r pedair lefel arsylwi yn ei olygu yn ystod y panel nesaf os ystyrir bod ei angen.* |

| | | |
|---|---|---|
| **Dillad risg arbennig/dillad gwrth-niwed** | 1) O’r pum cofnod a nododd fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gwisgo dillad risg arbennig, nid oedd unrhyw achos lle tynnwyd y dillad trwy rym. O gofio safiad yr heddlu i gael gwared ar ddillad gwrth-rwygo ym mis Mai 2025, a allwch chi nodi a oedd y broses dillad risg arbennig a gymhwyswyd i’r unigolion a gedwir yn y ddalfa yn yr achosion hyn yn gymesur? | *Cofnod dalfa 1 (Hydref-Rhagfyr 2024) – unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael ei fonitro ar wiriadau deffro L2 yn wreiddiol oherwydd meddwdod. Fodd bynnag, fe’i gwelwyd yn clymu siwmper o amgylch ei wddf. Mae swyddogion wedi mynd i mewn i’r gell a thynnu’r siwmper oddi arno, mae’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cicio a phoeri ar swyddogion. Parhaodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i fygwth cymryd ei bywyd ei hunan ac roedd wedi mynd drwy gyfnodau o hunan-niweidio yn ddiweddar. Cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei rhoi mewn dillad gwrth-niwed a chodwyd y lefel arsylwi i wiriadau teledu cylch cyfyng L3. Gan fod y defnydd hwn o ddillad gwrth-niwed wedi bod cyn Mai 2025, byddai dillad gwrth-niwed wedi bod yn opsiwn i’r swyddog dalfa o hyd.  Gellid bod wedi ystyried arsylwadau L4, heb ddillad gwrth-niwed, ond o ystyried y trais a ddangoswyd (cicio/poeri) byddai hyn wedi peri risg i swyddogion.  Nid yw’r ystyriaeth hon wedi’i chofnodi yng nghofnod y ddalfa, rhywbeth yr hoffwn fod wedi’i weld.*<br><br>*Cofnod dalfa 2 (Hydref-Rhagfyr 2024) – Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y ddalfa, roedd yn ymddwyn yn fygythiol wrth y ddesg, yn gwrthod asesiad risg, cafodd ei hebrwng i’r gell a chynhaliwyd gweithdrefn gell. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi gwneud sylwadau i’r swyddogion arestio am niweidio ei hun a nodwyd yn y cofnodion ei fod wedi cael ei roi mewn dillad gwrth-niwed oherwydd risgiau anhysbys ac er mwyn atal niwed. Cafodd ei osod ar arsylwadau teledu cylch cyfyng L3.  Nid oedd y defnydd hwn o ddillad gwrth-niwed yn briodol. Dylid bod wedi ystyried opsiynau eraill yn y lle cyntaf i ddangos tystiolaeth o reoli risg yn dda, megis ystyried arsylwadau L4 (trwy agoriad drws os oedd angen), neu arsylwadau L3 heb ddillad gwrth-niwed.  Mae’n debyg y byddai’r* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *opsiynau eraill hyn, fyddai wedi bod yn fwy cymesur, wedi cael yr un effaith o ystyried bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi ymgartrefu'n dda yn y ddalfa ac wedi mynd i gysgu heb unrhyw broblem. Symudwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa o arsylwadau L3 i wiriadau deffro L2 oherwydd ei feddwdod. Deffrowyd yn dda ac yna symudwyd ef i arsylwadau L1 30. Mae'r agwedd hon yn arddangos gallu'r swyddog dalfa i reoli risg yn dda, ond nid oedd y defnydd cychwynnol o ddillad gwrth-niwed yn briodol.*<br><br>*Cofnod dalfa 3 (Hydref-Rhagfyr 2024) – Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y ddalfa yn ymddwyn yn fygythiol ac yn feddw. Oherwydd hyn, aethpwyd â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'r gell a chwblhawyd y weithdrefn gell. Clymodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ddillad o amgylch ei wddf a cheisiodd benio'r toiled. Yna mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi mynd ati i achosi llifogydd yn y gell. Symudwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i gell sych a'i fonitro ar arsylwadau L3. Nid oedd y defnydd hwn o ddillad gwrth-niwed yn briodol ac ni fyddai defnyddio dillad gwrth-niwed wedi atal yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa rhag penio'r toiled. Yn hytrach, gellid bod wedi rhoi gefynnau ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eto yn ystod y weithdrefn gell a gallai swyddogion fod wedi ei fonitro ar arsylwadau L4 hyd nes iddo dawelu'n ddigonol. Mae'n debyg y byddai hyn wedi cael yr effaith a ddymunwyd o ystyried bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi tawelu ac yn defnyddio ffôn y ddalfa i siarad â'i nain lai nag awr yn ddiweddarach. Yn ogystal â hyn, nid oedd defnyddio'r gell sych yn briodol gan nad oedd y rheswm yn un fforensig a dylai staff y ddalfa fod â gwybodaeth am sut i gadw'r dŵr ar wahân, trwy'r cwpwrdd, wrth ymyl drws y gell i atal llifogydd.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Cofnod dalfa 4 (Ionawr-Mawrth 2025) – Ni ddefnyddiwyd dillad gwrth-niwed yn ystod y cofnod dalfa hwn. Cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y ddalfa yn ymddwyn yn anghwrtais, yn feddw, ac ni ellid cwblhau asesiad risg. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi troethi ei hun ddwywaith ers iddo gael ei arestio ac felly cafodd "ddillad dalfa" gan fod ei ddillad ei hun wedi'u baeddu. Ymddengys bod aelod y panel wedi camgymryd "dillad dalfa" am ddillad gwrth-niwed.*<br><br>*Mae'r arsylwadau hyn wedi tynnu sylw at y ffaith fod penderfyniad yr heddlu, yn unol ag argymhellion cenedlaethol, i roi'r gorau i ddefnyddio dillad gwrth-niwed o fewn heddlu Dyfed-Powys yn benderfyniad cywir. Ym mhob un o'r cofnodion, roedd opsiynau eraill, mwy addas ar gael yn hytrach na dillad gwrth-niwed, a byddai defnyddio'r opsiynau eraill hyn wedi dangos gwell rheolaeth risg ar ran y swyddogion dalfa o dan sylw.* |
| **Oedolyn priodol** | Honnodd dau aelod o'r panel fod dau unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael oedolyn priodol gyda nhw yn y gorffennol, ond na chawsant un ar yr achlysur hwn. Mewn un achos, nid oedd y sail rhesymegol dros beidio â darparu oedolyn priodol yn glir, ac roedd yr unigolyn arall wedi gwrthod.<br><br>A ellir egluro pam na ddarparwyd rhesymeg clir i egluro pam na chafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa oedolyn priodol, ac a all unigolyn a gedwir yn y ddalfa wrthod oedolyn priodol os yw staff y ddalfa o'r farn ei fod angen un? | *I ateb y cwestiwn a all unigolyn a gedwir yn y ddalfa wrthod oedolyn priodol os yw staff y ddalfa o'r farn bod angen un ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Yn syml, na. Ni all oedolyn neu blentyn sy'n agored i niwed wrthod presenoldeb oedolyn priodol. Mae'r heddlu wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i ddarparu oedolyn priodol i ddiogelu buddiannau'r unigolyn a sicrhau ei fod yn deall ei hawliau a'r amgylchiadau/sefyllfa. Gall yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wrthod siarad â'r oedolyn priodol, ond ni allant atal yr oedolyn priodol rhag bod yn bresennol yn ystod rhyngweithiadau'r heddlu megis mewn cyfweliadau, yn ystod hawliau a hawlogaethau, wrth brosesu, ac ati. Er mwyn rhoi sicrwydd, darparodd rhingyll y ddalfa resymeg i egluro pam nad oedd angen oedolyn priodol am 11.26 o'r gloch.* |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd aelod o'r panel bod staff y ddalfa wedi ystyried bod angen asesiad addasrwydd i ryddhau; ond, ar ôl adolygiad cysgu, penderfynwyd nad oedd hyn yn ofynnol. A allwch chi egluro hyn? | *Yn ogystal â hyn, o adolygu'r cofnod dalfa arall, gallaf gadarnhau bod oedolyn priodol yn bresennol ac wedi cynorthwyo'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa.*<br><br>*O ran eglurder ynghylch y pwynt olaf parthed addasrwydd i ryddhau. Rwyf wedi adolygu'r cofnod cadw a gofynnwyd am asesiad addasrwydd i ryddhau fel y cynlluniwyd, ac fe'i cwblhawyd cyn rhyddhau'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Mae hyn wedi'i gofnodi yn adran gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y cofnod dalfa.* |
| **Plentyn yn y ddalfa** | Mae'r unig gofnod o blentyn a gafodd ei hapsamplu yn dangos na chwblhawyd rhestr wirio plant yn y ddalfa, llais y plentyn na'r eiliadau cyraeddadwy. A ellir dilysu hyn a pha sicrwydd allwch chi ei roi i ddangos bod dalfeydd yn Nyfed-Powys yn mynd i'r afael â'r mater hwn er mwyn sicrhau llesiant plant sydd yn y ddalfa? | *Mae'r rhestr wirio plant yn y ddalfa yn bresennol, ynghyd â model AWARE ar gyfer llais y plentyn. Ni chafodd eiliadau cyraeddadwy eu hystyried.*<br><br>*Mae gwasanaethau'r ddalfa yn ymwybodol bod y maes hwn wedi bod yn broblem o ran arferion ar draws yr heddlu ac nad yw eiliadau cyraeddadwy a llais y plentyn yn cael eu cwblhau'n ddigonol. I unioni hyn, mae aelodau'r panel eisoes yn ymwybodol, o gyfarfodydd panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cyflwyno'r prosiect Eiliadau Cyraeddadwy ym mhob dalfa yn y dyfodol agos iawn. Caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu gan Adferiad, a bydd eu gweithwyr Eiliadau Cyraeddadwy hyfforddedig yn mynychu'r ddalfa ar gyfer pob plentyn. Bydd hyn yn cwmpasu eiliadau cyraeddadwy, llais y plentyn, meithrin perthynas â'r plentyn, cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflwyno atgyfeiriadau addas i asiantaethau partner, creu cynllun gofal gyda chanlyniad sêr penodol i bob plentyn, a darparu cefnogaeth yn ystod ac ar ôl cyfnod y* |


| | | |
|---|---|---|
| | | *plentyn yn y ddalfa gyda gwiriadau dilynol wedi iddo gael ei ryddhau.* |
| **Crefydd** | Ni allai'r panel ddod o hyd i fanylion a oedd yn nodi y cafodd yr unigolion a gedwir yn y ddalfa eu holi am eu crefydd mewn 16 allan o'r 26 cofnod a adolygwyd. O ystyried bod hyn wedi'i nodi fel nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a allwch chi nodi pam mae staff y ddalfa yn hepgor y manylyn hwn? | *Nid yw crefydd bellach yn rhan o'r cwestiwn asesu risg a osodwyd ers cyflwyno Niche. Mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid ac nid oes gan Heddlu Dyfed-Powys unrhyw ymreolaeth dros hyn. Mae crefydd bellach wedi'i gynnwys yn yr adran "enw a gwybodaeth am yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa" yng nghofnod y ddalfa. Nid yw'n faes gorfodol y mae angen ei gwblhau chwaith sy'n golygu y gellir ei fethu ar adegau.*<br><br>*Ar ôl gwirio'r cofnodion dalfa a ddarparwyd ar gyfer Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa hwn, y fersiwn hawdd ei ddarllen a'r cofnod dalfa llawn, nid yw'r wybodaeth am grefydd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i ddethol o Niche a'i roi yn unrhyw un o'r cofnodion hyn. Yr unig wybodaeth mae'r fersiwn hawdd ei ddarllen wedi ei ddethol o Niche yw enw a dyddiad geni, ac mae'r cofnod llawn wedi dethol enw, dyddiad geni, cyfeiriad, man geni, taldra, pwysau, corffolaeth, lliw gwallt, lliw llygaid, rhyw, ethnigrwydd a ddiffiniwyd gan swyddog, ac ethnigrwydd hunanddiffiniedig. Nid yw'r naill na'r llall yn dethol crefydd o Niche fel rhan o'r adroddiad. Bydd hyn yn anochel yn ei gwneud yn anodd i aelodau'r panel ganfod a yw crefydd wedi'i gynnwys.*<br><br>*Ar ôl gwirio'r 30 cofnod dalfa a ddarparwyd ar gyfer Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa hwn ar Niche, cofnodwyd crefydd yn 22 o'r cofnodion (17 x dim crefydd, 3 x anffyddiwr, 2 x Cristnogol arall) ac ni chofnodwyd yn wyth o'r cofnodion. Mae hyn yn dangos, yn seiliedig ar y cofnodion hyn, nad yw staff yn hepgor y manylyn hwn a'u bod yn ei gofnodi ar y rhan fwyaf o achlysuron (73%). Fodd bynnag, mae'n dangos bod lle i wella yn y maes hwn o hyd a bydd hyn yn cael ei fonitro* |


| | | |
|---|---|---|
| | | *yn ystod archwiliadau misol, gyda chanllawiau'n cael eu hanfon at staff y ddalfa fel nodyn atgoffa os ystyrir bod ei angen.* |


# Atodiad- Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion y Ddalfa


Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel a ddadansoddwyd i nodi'r agweddau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o'r ddalfa gyda ffocws ar ddefnyddio grym yn y ddalfa. Mae adran hon yr adroddiad yn ychwanegol i roi cyd-destun i'r adrannau *Crynodeb o'r canfyddiadau* a *Sylwadau'r panel* uchod.

## Demograffeg











- Ni allai'r panel ddod o hyd i fanylion a oedd yn nodi y cafodd yr unigolion a gedwir yn y ddalfa eu holi am eu crefydd mewn 16 allan o'r 26 cofnod a adolygwyd.

# Dalfeydd






# Amser cyrraedd y ddalfa




**Yr amser a aeth heibio o gyrraedd i gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa**

- Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 31 munud.
- Yr amser aros hiraf oedd un awr a 42 munud, gyda'r aelod panel yn nodi mai'r rheswm dros yr oedi oedd bod y ddalfa'n brysur a bod unigolion eraill a gedwir yn y ddalfa yn cael eu cofrestru.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd pedair munud.









**Cyfanswm yr amser yn y ddalfa**


- Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 19 awr a 39 munud.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd dau ddiwrnod 10 awr a 55 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd tair awr ac 15 munud gan i’r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gynghori nad oedd cyflwr yr unigolyn yn addas ar gyfer ei gadw yn y ddalfa a chafodd ei gludo i’r ysbyty.


- Gofynnwyd i’r panel benderfynu a oedd angen yr arestio. Dyma’r rhestr o anghenion o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol:
- I ganfod enw neu gyfeiriad person
- Er mwyn atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill
- Er mwyn atal colli neu ddifrodi eiddo
- Er mwyn atal trosedd yn erbyn gweddusrwydd cyhoeddus
- Er mwyn amddiffyn plentyn neu berson bregus
- Os oes rhwystr anghyfreithlon i’r briffordd
- Er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i’r drosedd
- Er mwyn atal ymchwiliad i drosedd neu erlyniad yr unigolyn dan amheuaeth rhag cael ei rwystro.
- Yr angen amlycaf i arestio a nodwyd oedd *cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i’r drosedd* ac yna *atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill.*
- Tri chofnod yn unig a nododd mai’r unig reswm dros arestio oedd i *gynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol*; nodwyd rhesymau ychwanegol yn y cofnodion eraill. Roedd y tri unigolyn hwnnw yn y ddalfa am 21 awr 55 munud, 15 awr ac 11 awr.


# Darpariaethau yn y ddalfa









- Nododd y panel fod absenoldebau o ran cofnodi anghenion crefyddol, picseleiddio'r toiled a botwm cloch y gell.
- Yn yr achos lle cofnododd aelod y panel nad oedd yn berthnasol, cafwyd asesiad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a benderfynodd nad oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa

# Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa





- O’r wyth unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa, nodwyd y cafodd swyddog benywaidd ei aseinio i bob un ohonynt a gofynnwyd i bob unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa os yr hoffent siarad â rhywun o’r un rhyw.
- Nododd un aelod o’r panel nad oedd y cynhyrchion mislif yn berthnasol oherwydd oedran yr unigolion a gedwir yn y ddalfa.








# Hylendid




- Nodwyd bod cyfleusterau hylendid wedi cael eu cynnig i bob un o'r wyth unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa.
- Nododd dau gofnod nad oeddynt wedi cael eu cynnig i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa. Eglurwyd hyn yn yr adran *Sylwadau'r Panel*.

# Hawliau a hawlogaethau





- Nododd aelod y panel fod un unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i ystyried yn anaddas i gael ei gadw yn y ddalfa gan y gweithiwr gofal iechyd; felly, ystyriodd nad oedd y cwestiwn ynghylch derbyn ei hawliau yn berthnasol.
- Ni allai un aelod o'r panel gadarnhau a gyflwynwyd hawliau i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa naill ai wrth ei gofrestru neu'n ddiweddarach.


**Pa mor hir, ar ôl cael ei gadw yn y ddalfa, y gofynnodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gyfreithiwr?**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd wyth awr ac 16 munud.
- Mewn saith o'r 26 cofnod, gwrthododd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yr opsiwn i ofyn am gyfreithiwr.
- Y cyfnod hiraf cyn i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 24 awr a 30 munud.

**Yr amser a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**


- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd chwe awr a 47 munud.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd 13 awr a 42 munud.
- Y cyfnod byrraf oedd pedwar munud.





**Yr amser a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd o'r pwynt cysylltu**


- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais oedd chwe awr a 41 munud.
- Nododd y panel ar dri achlysur nad oedd unrhyw gofnod yn nodi pryd gyrhaeddodd y cyfreithiwr, neu ei bod yn anodd dod o hyd i fanylion am y cysylltiad hwn.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol ar yr oedi cyn i gyfreithwyr weld yr unigolion a gedwir yn y ddalfa fel y'u cofnodwyd yng nghofnod y ddalfa:
    1) Yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa o dan ddylanwad alcohol ac wedi cael ei hawliau a'i hawlogaethau.
    2) Aed â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'r ysbyty.
    3) Newidiodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei feddwl a chanslo'r cyfreithiwr.
    4) Aethpwyd â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'r llys a chredwyd y byddai'r cyfreithiwr yn cwrdd ag o yno.






- Gofynnwyd i'r panel nodi'r dull gwaredu er mwyn asesu a oedd cadw'r unigolyn yn y ddalfa yn gymesur â'r angen i'w arestio.
- Roedd 35% o'r dulliau gwaredu ar gyfer mechnïaeth amodol sef y broses sy'n caniatáu i swyddogion atodi amodau i fechnïaeth a all gefnogi dioddefwyr a/neu dystion, cadw tystiolaeth a lliniaru troseddau pellach.
- O'r tri chofnod gyda'r dull gwaredu yn nodi dim gweithredu pellach, yr angenrheidrwydd arestio a bennwyd ar gyfer dau ohonynt oedd "*Cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd*." Fodd bynnag, roedd hyn hefyd i *Atal person rhag colli neu ddifrodi eiddo; Atal person rhag achosi anaf corfforol; ac Atal y person rhag dioddef anaf corfforol.*

# Lefel arsylwi









- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
  - Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
  - Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
  - Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
  - Lefel 4 Yn gorfforol agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).


- Cofnododd y panel gadarnhad o 92% bod risgiau'r unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi'u hystyried.
- O'r ddau gofnod a ystyriwyd i fod yn Amherthnasol roedd un unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i ystyried yn anaddas i gael ei gadw yn y ddalfa gan y gweithiwr gofal iechyd, a chredir bod y llall wedi'i nodi mewn camgymeriad, gan ei fod wedi nodi y glynwyd at y lefel arsylwi mewn cwestiwn diweddarach.




- Cadwyd at yr holl lefelau arsylwi a osodwyd gan y ddalfa.
- Ni allai aelod o'r panel ddod o hyd i fanylion yn nodi a oedd angen deffro'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gyson.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r lefelau arsylwi:
  1) *"Cynyddodd lefel yr arsylwi o 2 i 3 yn effeithiol ac yna cafodd ei ostwng i 1. Ymatebodd staff y ddalfa i'r sefyllfa yn unol â hynny."*
  2) *"Adolygwyd y lefel arsylwi yn ystod y cyfnod yn y ddalfa, a'i chynyddu pan oedd pryderon clir am synio am hunanladdiad. Adolygwyd y lefel a'i gostwng yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod yn y ddalfa."*
  3) *"Cafodd lefelau arsylwi eu gostwng o 4 i 1 yn ystod y cyfnod yn y ddalfa."*





## Gwasanaethau cymorth




- Nododd aelodau'r panel fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi gwrthod yr opsiwn am wasanaethau cymorth ar saith achlysur.
- Pwysleisiodd aelodau'r panel mai'r prif wasanaeth a gynigir i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa oedd ar gyfer iechyd meddwl. Ar un achlysur arall, cynigiwyd gwasanaethau cymdeithasol iddynt.

# Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol






- Nododd y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol:
  1) Atgyfeiriodd gweithiwr proffesiynol y ddalfa a gweithiwr proffesiynol gofal at y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn briodol.
  2) Nododd staff y ddalfa fod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa hanes o anawsterau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu.
  3) Mae'n arfer da bod y cofnod yn dangos dealltwriaeth bod oedolyn priodol wedi cael ei ystyried yn angenrheidiol o'r blaen, felly ymddengys bod sylw ychwanegol wedi'i roi i'r gofyniad ar yr achlysur hwn.
  4) Mae pryderon iechyd meddwl wedi cael eu cydnabod tra roedd yr unigolyn yn y ddalfa a cheisiwyd asesiadau gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Cysylltwyd ag oedolyn priodol ac fe fynychodd mewn pryd ar gyfer y cyfweliad.

# Dillad risg arbennig/dillad gwrth-rwygo

A roddwyd siwt ddiogelwch/dillad risg arbennig (gwrth-rwygo) i'r unigolyn ei wisgo?





A wnaeth yr unigolyn yn y ddalfa ymgysylltu â'r cwestiynau risg?





- Aseswyd bod pob unigolyn a gedwir yn y ddalfa a neilltuwyd iddynt ddillad gwrth-rwygo yn wynebu risg o hunan-niweidio.
- Ni thynnwyd y dillad trwy rym mewn unrhyw achos.


Lle darparwyd siwt, a ddarparwyd sail resymegol?





Os oedd dillad yn cael eu tynnu, a oedd asesiadau risg parhaus?





A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth o ddad-ddwysáu, eitemau sy'n tynnu sylw neu ddulliau eraill o leihau lefel risg yr unigolion tra yn y...




A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth bod y dillad risg arbennig yn cael eu trafod pan mae staff yn trosglwyddo?




A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth bod y dillad risg arbennig/siwt wrth-rwygo wedi cael eu tynnu cyn gynted â phosibl?





A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth bod y dillad risg arbennig/siwt wrth-rwygo wedi cael eu tynnu cyn y cyfweliad?





- Nododd y panel y canlynol mewn perthynas â defnyddio dillad risg arbennig:
  1) Rhoddwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn y dillad risg arbennig oherwydd y risg o hunan-niweidio, ond nid oes unrhyw gofnod yn nodi sut y cafodd hyn ei egluro i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa nac a oedd hynny yn golygu defnyddio grym.
  2) Y rheswm dros roi'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn y dillad risg arbennig oedd bod yr unigolyn wedi gwneud sylwadau i'r swyddogion wrth deithio i'r ddalfa ei fod yn bwriadu lladd ei hun. Gwrthododd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ateb wrth ddesg y ddalfa ac felly mae'r unigolyn wedi cael ei roi mewn dillad gwrth-niwed oherwydd y risgiau anhysbys i atal niwed pellach.
  3) Tynnwyd dillad oddi arno gan fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi troethi ei hun ar ddau achlysur.

# Defnyddio grym









- Nododd aelodau'r panel a oedd o'r farn nad oedd y grym a ddefnyddiwyd yn gymesur y rhesymeg ganlynol:
  1) Ymddengys y defnyddiwyd grym cyn i'r unigolyn gael ei gymryd i'r ddalfa gan ei fod wedi cael ei roi mewn gefynnau.
  2) Ar dri achlysur, nododd aelodau'r panel nad oedd digon o fanylion yn y cofnod i ddangos tystiolaeth o ba fath o rym a ddefnyddiwyd a'r sail rhesymegol dros ddefnyddio grym.
  3) *"Bachgen 14 oed oedd hwn a geisiodd gerdded allan o'r gell ar ôl ei nain. Dydw i ddim yn siŵr os oedd angen i sawl swyddog ei dynnu i'r llawr a'i roi mewn gefynnau i'w atal rhag gwneud hynny, ac mae'n amlwg o'r cofnod bod ei nain yn ei ystyried yn ddefnydd gormodol o rym."*
  4) Tynnwyd siorts trwy rym oherwydd byddai modd defnyddio'r bwclau o bosibl i hunan-niweidio. Nodwyd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i roi ar lefel arsylwi 3; fodd bynnag, cwestiynodd aelod y panel a oedd yn angenrheidiol i dorri siorts yr unigolyn o ran urddas.





- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â defnyddio grym:
  1) Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymosodol ar ôl cael ei arestio a chafodd ei hebrwng yn syth i'w gell. Cynhaliwyd y weithdrefn gell ond ni ellid dod o hyd iddi yn y cofnod. Ymddengys, ar ôl cau drws y gell, fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi parhau i gicio a tharo drws y gell.
  2) Mae'r cofnod yn cynnwys y nodyn 'ROEDD YR UNIGOLYN A GEDWIR YN Y DDALFA AM I'R CLEISIAU AR DU MEWN EI BREICHIAU A'I PHENAGLINIAU GAEL EU COFNODI,' ond nid oedd esboniad nac archwiliad ynghylch a oedd hyn mewn perthynas a defnyddio grym.
  3) Roedd y defnydd o rym yn gymesur ac yn angenrheidiol.
  4) Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn hynod o dreisgar, yn taro ei ben yn y fan ac mae'r teledu cylch cyfyng yn dangos ymddygiad ymosodol yn y gell, yn dyrnu waliau/drysau, yn poeri dros y gell ac yn gweiddi a cham-drin y staff ar lafar.

# Noeth-chwiliad








- Nodwyd bod un cofnod yn nodi bod oedolyn priodol yn bresennol yn ystod noeth-chwiliad.
- Nododd un aelod o'r panel nad oedd rhesymeg dda dros gynnal noeth-chwiliad.
- Nododd dau aelod arall o'r panel ddiffyg sail rhesymegol dros gynnal noeth-chwiliad.

# Iechyd meddwl, oedolion priodol a bregusrwydd eraill

A nododd yr heddlu fod angen oedolyn priodol?





Nododd y panel y rhesymau canlynol pam yr ystyriwyd bod rhai unigolion a gedwir yn y ddalfa yn fregus:


- Pedwar achos o synio am hunanladdiad.
- Pryderon meddygol ynghylch pwysedd gwaed.
- Plentyn o dan 17 oed.
- Pedwar achos o gyfeiriadau at wasanaeth iechyd meddwl, gan gynnwys ar gyfer iselder a gorbryder.

Honnodd dau aelod o'r panel fod dau unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael oedolyn priodol gyda nhw yn y gorffennol, ond na chawsant un ar yr achlysur hwn. Mewn un achos, nid oedd y sail rhesymegol dros beidio â darparu oedolyn priodol yn glir ac roedd yr unigolyn arall wedi gwrthod.

(Os do ac ni ddarparwyd un) A oedd unrhyw reswm pam na ddarparwyd oedolyn priodol?




A gysylltwyd â'r unigolyn enwebedig/oedolyn priodol?



# Plant yn y ddalfa

Roedd un plentyn a gedwir yn y ddalfa yn yr hapsamplu ar gyfer defnyddio grym. Ni wnaeth y plentyn hwnnw:


- Gael ei gyhuddo yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa.
- Cafodd ei gadw am gyfanswm o bump awr a 39 munud ac ni chafodd ei gadw dros nos.
- Cysylltwyd â'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Ni chwblhawyd rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, na llais y plentyn nac eiliadau cyraeddadwy.

# Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod y ddalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu graddfa gyffredinol o gofnod y ddalfa gan ddefnyddio'r sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

| Enghreifftiau o reswm dros raddio | Camau gweithredu dilynol |
|---|---|
| **Rhesymeg lawn wedi'i rhoi dros ddefnyddio grym, noeth-chwiliad neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r sawl a gedwir yn y ddalfa mewn modd cyfiawn a chymesur.** | **Nid oes angen unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.** |
| **Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r sawl a gedwir yn y ddalfa.** | |
| **Defnyddiwyd dulliau dad-waethygu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn a gedwir yn gaeth rhag hunan-niweidio bwriadol.** | |
| **Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad.** | **Cyngor/hyfforddiant pellach i staff y ddalfa.** |
| **Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gedwir yn y ddalfa dderbyn ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol.** | |
| **Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson.** | |
| **Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw cyfiawnhad yn gymesur.** | |
| **Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg a heb unrhyw resymeg arall.** | |

| | |
|---|---|
| **Oedi sylweddol wrth i'r sawl a gedwir yn y ddalfa weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol neu oedolyn priodol.** | **Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.** |
| **Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd y sawl a gedwir yn y ddalfa.** | |




Y rhesymeg a neilltuwyd i bob gradd lliw oedd asesiad/barn aelodau unigol y panel o gofnod y ddalfa y cawsant eu neilltuo iddo. Isod mae peth o'r rhesymeg a ddarparwyd gan y panel ar gyfer eu graddio:

| Gwyrdd | Melyn | Coch |
|---|---|---|
| *"Cofnodwyd seiliau rhesymegol, cadwyd at y cynllun gofal, darparwyd bwyd/diod yn ôl y gofyn."* | *"Dim pryderon gwirioneddol am y profiad yn y ddalfa ac roedd yn ymddangos y diwallwyd anghenion yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Fodd bynnag, mae cofnod y ddalfa yn blaen ac yn brin o fanylion i allu gweld y gofal rhagweithiol ar lefel 2 a gafodd ei ostwng i lefel 1. Yn nodi ei fod yn ymosodol iawn mewn priflythrennau ond dim tystiolaeth yn y* | *"Unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dreisgar - wedi'i gario i'r gell - mae'r asesiad risg yn nodi bod angen cwblhau ffurflen defnyddio grym a'r adroddiad yn nodi (tudalen olaf - dim defnydd o rym gan staff y ddalfa). Nid yw'n glir a welodd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa."* |

| | | |
|---|---|---|
| | *ddalfa. Nid yw'r diffyg manylion yn helpu i roi darlun cyflawn. Datganiad aneglur bod cordiau'n cael eu torri o ddillad ond bod dillad y ddalfa yn cael eu rhoi. Efallai y byddai mwy o fanylion o gymorth"* | |
| *"Rwy'n credu bod yr heddlu wedi bod yn rhagweithiol iawn yn yr arestiad anodd hwn, ac wedi gwneud popeth posibl i ofalu am yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa."* | *"O ystyried gweithdrefn Meddyliau o Hunan-niweidio, nid yw'n glir pam nad ystyriwyd ei bod yn briodol i gael oedolyn priodol - byddai'r esboniad ar y ffurflen wedi rhoi sicrwydd ei fod wedi cael ei ystyried yn llawn."* | |
| *"Gofalwyd am yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dda a dangoswyd arferion da."* | *"Dim eglurhad wedi nodi defnyddio grym tra yn y ddalfa - roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddwyn yn ymosodol ar ôl cael ei arestio yn poeri at swyddogion a chafodd ei hebrwng i'r gell ar unwaith - wedi'i gofnodi fel dim defnydd o rym tra yn y ddalfa."* | |
| *"Roedd defnyddio grym yn briodol. Ni chafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei ystyried yn addas i gael ei gadw yn y ddalfa a chafodd ei drosglwyddo i'r ysbyty."* | *"Ychydig iawn o wybodaeth yn y cofnod i ddangos tystiolaeth o'r sail rhesymegol dros ddefnyddio grym neu ba dechnegau a ddefnyddiwyd."* | |